Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gatholig Archesgob McGrath
Oak Tree View
Bracla
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 2DN

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath yn ysgol gyfun gymysg wirfoddol a gynorthwyir ar gyfer disgyblion 11-19 oed ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae 886 o ddisgyblion ar y gofrestr, y mae 152 ohonynt yn y chweched dosbarth. Mae hyn yn uwch nag ydoedd adeg yr arolygiad diwethaf yn 2013.

Mae'r ysgol yn darparu addysg Gatholig ar gyfer disgyblion ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys Porthcawl, Maesteg a Chwm Ogwr. Mae nifer fach o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol o Fro Morgannwg hefyd. Mae'r rhai sy'n mynychu'r ysgol yn gwneud hynny oherwydd ei natur a'i chymeriad Catholig.

Mae tua 14% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%, ac mae tua 23% o'r disgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan ychydig mwy nag 11% o'r disgyblion angen addysgol arbennig, ac mae gan lai nag 1% ohonynt ddatganiad ar gyfer yr angen hwnnw. Mae'r ddau ffigur yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith, ac ychydig iawn ohonynt sy'n gwneud hynny i safon gyfatebol. Fodd bynnag, nid yw bron i 8% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu mamiaith.

Penodwyd y pennaeth yn 2015. Mae gweddill yr uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dirprwy bennaeth, pedwar pennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol iawn, y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn falch o fod yn rhan ohono. Mae'r ethos Catholig, sy'n cydnabod bod 'pob plentyn yn unigolyn unigryw, yn werthfawr i Dduw', yn sylfaenol i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn dysgu dangos parch ac yn hyrwyddo rhinweddau yn cynnwys diolchgarwch a thosturi.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith pwrpasol gyda'u dosbarthiadau ac yn dangos gwybodaeth bynciol gref. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae ansawdd yr addysgu yn cyfrannu'n gadarnhaol at les a datblygiad personol disgyblion, yn ogystal â'r safonau y maent yn eu cyflawni.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae arweinwyr yr ysgol wedi llwyddo i gefnogi gwelliannau yn neilliannau, lles, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr wedi ymgynghori'n ddigon da â staff am newidiadau pwysig ac nid yw'r trefniadau gwneud penderfyniadau bob amser yn ddigon tryloyw. Mae hyn wedi cyfrannu at forâl isel ymhlith y staff ac wedi'i wneud yn anodd iddynt gyflawni eu dyletswyddau mor drylwyr ag o'r blaen.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Gwella ymgynghori a chyfathrebu, gan gynnwys ynglŷn â gwneud penderfyniadau

A2 Cynyddu manylder prosesau hunanwerthuso ar bob lefel

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol

A4 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda, fel egwyddorion algebraidd a nodweddion ysgrifennu perswadiol. Mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio eu medrau galw i gof yn effeithiol i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth ymhellach mewn gwahanol gyd-destunau. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, galw i gof fedrau mesur ac amcangyfrif a'u cymhwyso'n llwyddiannus i fonitro cyfradd oeri dŵr berw mewn biceri wedi'u hinswleiddio â deunyddiau amrywiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar yr athro ac ar eu cyfoedion, gan ddangos parch. Mae hyn yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol. Mae mwyafrif ohonynt yn ymateb yn dda i gwestiynau athrawon, yn defnyddio iaith sy'n benodol i bwnc yn briodol, ac maent yn hapus i rannu eu barn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn wrandawyr eithriadol o ystyriol, ac yn datblygu eu medrau llafar yn dda wrth rannu eu syniadau ar eu prosiectau her medrau personol, er enghraifft effaith dylunio mewnol ar iechyd meddwl.

Mae llawer o ddisgyblion yn brasddarllen a llithrddarllen yn briodol i ddod o hyd i wybodaeth. Mewn gwyddoniaeth, er enghraifft, mae disgyblion yn gwella eu dealltwriaeth o destunau fel anadlu anaerobig ac yn ei defnyddio i esbonio cysyniad prinder ocsigen. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn dda wrth ystyried y modd y mae Edgar Allan Poe yn creu awyrgylch yn 'The Raven', ac effaith sioeau teledu realiti ar ddelwedd pobl o'r corff. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn defnyddio ystod ddigonol o strategaethau darllen i gefnogi eu dysgu.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu sy'n dechnegol gadarn ac wedi'i strwythuro'n briodol. Maent yn ysgrifennu mewn gwahanol fformatau, gan gynnwys adolygiadau o destunau llenyddol fel 'The Red Room' gan HG Wells. Maent hefyd yn dangos synnwyr priodol o gynulleidfa wrth ysgrifennu llythyrau amrywiol, gan gynnwys llythyr gan feddyg at glaf yn rhoi gwybod iddo am ei ganlyniadau prawf ar gyfer diabetes, gan esbonio'r weithdrefn brofi ac amlinellu'r newidiadau posibl y mae angen i'r claf eu gwneud i'w ffordd o fyw. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn adolygu ac yn gwella eu hysgrifennu'n briodol. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn parhau i wneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol ac nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb am brawfddarllen eu gwaith cyn ei gyflwyno.

Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau rhif priodol, fel trin ffracsiynau, degolion, canrannau a rhifau cyfan. Maent yn defnyddio eu medrau'n effeithiol mewn cyd-destunau amrywiol fel ymchwiliadau mewn gwyddoniaeth, pan fyddant yn casglu data perthnasol ac yn llunio graffiau priodol. Wrth astudio osmosis, er enghraifft, maent yn gwneud gwaith ymarferol i ymchwilio i sut mae crynodiad amrywiol o swcros yn newid màs taten wedi'i throchi mewn toddiant siwgr, ac yn defnyddio eu graffiau'n briodol i lunio casgliadau addas. Yn ychwanegol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwneud defnydd creadigol o symbolau mathemategol, gan gynnwys pi, mewn dylunio ffabrig fel rhan o'u prosiect 'Mathemateg a Chelf'. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau datrys problemau a meddwl wrth baru graffiau teithio i ddisgrifiadau o deithiau, er enghraifft.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol ar draws y cwricwlwm.  Mae hyn yn cynnwys gwneud dewisiadau am gynnwys a fformatio mewn rhaglen dylunio gwefannau i hyrwyddo ymgyrch gwrth-seiberfwlio ymhlith disgyblion iau.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn gwneud defnydd effeithlon o beiriannau chwilio, er enghraifft maent yn defnyddio cysylltyddion Boolean i helpu gwneud gwaith ymchwil ar eu prosiectau personol her medrau.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd cadarn o'u dawn greadigol; er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, maent yn dylunio a chreu eu rocedi gofod eu hunain o gerdyn, poteli plastig, ac wedyn yn cyfrifo amseroedd eu hediadau ar ôl lansio'r rocedi gydag aer cywasgedig.  Yn ychwanegol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigrwydd yn dda hefyd trwy gyfansoddi harmonïau mewn cerddoriaeth a datblygu syniadau newydd fel defnyddio darluniau Andy Warhol i ddatblygu colur drag a thraciau teiar cerbyd i ddatblygu dyluniad ffabrig mewn celf.

Dros y cyfnod 2016-2018, bu gwelliant da mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 4.  Yn 2017 a 2018, roedd perfformiad yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg ar y cyfan, a gwnaeth disgyblion gynnydd da.  Mae data dros dro ar gyfer 2019 yn dangos bod y gwelliant a'r cynnydd hwn wedi cael ei gynnal ar y cyfan, gan gynnwys perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n cymharu'n ffafriol â pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg.  Cwblhaodd y rhan fwyaf o ddisgyblion y dystysgrif her medrau.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn mynd ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi iddynt adael yr ysgol.

Mae cyfran y disgyblion chweched dosbarth sy'n cyflawni tair gradd A*-C, a thair gradd A*-A mewn Safon Uwch neu gyfwerth, dros y cyfnod tair blynedd 2016-2018, yn cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg.  Mae'r data dros dro ar gyfer 2019 yn dangos bod perfformiad y rhai sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch ymhell uwchlaw'r disgwyliadau o gymharu â disgyblion sydd â lefel debyg o gyrhaeddiad blaenorol yn y tair blynedd ddiwethaf, er bod perfformiad disgyblion sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol yn llawer gwannach ac islaw'r disgwyliadau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn llwyddo ar lefel 2 yn Gymraeg.  Mae eu hynganiad fel arfer yn gadarn, ac mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio geirfa a phatrymau brawddeg newydd yn hyderus.  Maent yn cynhyrchu ysgrifennu sydd wedi'i strwythuro'n addas ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o amser y ferf.  Gall llawer o ddisgyblion ddarllen gyda dealltwriaeth, a defnyddiant strategaethau adalw sylfaenol i gasglu gwybodaeth am faterion fel byw yn iach.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch o fod yn rhan o gymuned gefnogol eu hysgol.  Mae llawer ohonynt yn datblygu'n llwyddiannus fel dinasyddion moesegol a gwybodus.  Maent yn dysgu ymgorffori parch ac yn hyrwyddo rhinweddau yn cynnwys diolchgarwch a thosturi.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd e-ddiogelwch a sut i fod yn ddiogel ar-lein.  Mae mwyafrif y disgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio neu aflonyddwch sy'n digwydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u diet ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon y tu allan i'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r modd y gall y penderfyniadau hyn effeithio ar iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, ac maent yn ymwybodol o ystod o strategaethau sy'n gallu gwella eu lles eu hunain, a lles pobl eraill. Mae ychydig o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol, fel pêl-rwyd a rygbi, yn ystod amser cinio.

Mae disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn datblygu eu medrau arwain yn briodol, er enghraifft, trwy fod yn aelod o'r Gaplaniaeth Iau sy'n rhoi cefnogaeth dda i'r banc bwyd lleol, ffoaduriaid o Syria a'r apêl blwch esgidiau. Yn ychwanegol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn hael â'u hamser yn arwain clwb codio cyfrifiadurol poblogaidd mewn ysgol gynradd leol. Mae llysgenhadon dysgu a senedd yr ysgol yn cyfrannu'n ddefnyddiol at fywyd yr ysgol, er enghraifft pan wnaethon nhw ysgogi gwaharddiad ffonau symudol ar gyfer disgyblion ar draws yr ysgol gyfan. Fe wnaeth hyn wella perthnasoedd a lles ar draws yr ysgol trwy ymgysylltiad rhyngbersonol cynyddol a gostyngiad yn nylanwad negyddol y cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, er bod angen cymorth ar ychydig o ddisgyblion iau i ddatblygu arferion dysgu effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ryngweithio â phobl newydd ac ymwelwyr. O bryd i'w gilydd, mae ymddygiad gwael yn tarfu ar gynnydd ychydig o ddisgyblion a chynnydd eu cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn parchu ei gilydd, ac yn gadael i bobl eraill siarad heb dorri ar eu traws. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn canolbwyntio'n ddigon da wrth weithio'n annibynnol, er enghraifft pan roddir amser iddynt fyfyrio ar adborth a gwneud gwelliannau i'w gwaith. Mae hyn yn cyfrannu at waith anorffenedig yn llyfrau ychydig o ddisgyblion.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn cyrraedd gwersi yn brydlon, wedi paratoi'n dda, ac yn barod i ddysgu. Maent yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ar y cyfan, yn dal ati i ganolbwyntio ac yn dangos penderfynoldeb a dyfalbarhad pan roddir tasgau heriol iddynt. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn dehongli'r gerdd 'Pigeons' ar y cyd trwy wneud cysylltiadau â dysgu blaenorol, a rhannu eu syniadau am eirfa anghyfarwydd. Mae disgyblion yn datblygu medrau defnyddiol i wella eu cyflogadwyedd trwy eu gwaith tuag at y dystysgrif her medrau, er enghraifft, trwy wneud cyflwyniadau i'r gymuned fusnes leol ar fod yn ystyriol o ddementia.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith pwrpasol â'u dosbarthiadau ac yn dangos gwybodaeth bynciol gref. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at les disgyblion, datblygiad eu medrau a'r safonau y maent yn eu cyflawni.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhoi esboniadau clir ac yn sefydlu arferion ystafell ddosbarth buddiol. Mewn llawer o wersi, mae ganddynt ddisgwyliadau priodol uchel o'r hyn y gall disgyblion ei wneud, ac maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau difyr ac ysgogol sy'n hyrwyddo cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol a chânt eu cefnogi'n fuddiol gan adnoddau wedi'u paratoi yn ofalus. Mae llawer o athrawon yn

darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion archwilio, rhannu a datblygu eu syniadau a'u dealltwriaeth.

Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i ddatblygu meddwl disgyblion, ac asesu eu dealltwriaeth. Mae'r athrawon hyn yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn defnyddio holi yn ddigon da, ac maent yn siarad gormod. Mae hyn yn amharu ar gyflymdra'r dysgu, yn cyfyngu ar ymgysylltiad disgyblion, ac nid yw'n datblygu annibyniaeth disgyblion yn ddigon da.

Yn y gwersi prin lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym a chryf, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel, maent yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yn sicrhau bod tasgau'n gweddu'n dda i anghenion pob un o'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu at lefelau uchel o ymgysylltiad gan ddisgyblion, a rhediad cyflym i'r dysgu.

Mae effaith yr asesu a'r adborth i ddisgyblion yn rhy amrywiol. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol ac yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus. Mae mwyafrif yr adborth ysgrifenedig gan athrawon yn rhoi arweiniad buddiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith, a chyfleoedd i wneud hynny. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r adborth hwn yn cael digon o effaith gan nad yw athrawon yn ailymweld ac ystyried ymateb disgyblion iddo.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm â chydbwysedd addas sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion, ac yn diwallu anghenion disgyblion o bob gallu. Mae'r rhaglen gweithgarwch academaidd ym Mlwyddyn 9 yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r cyrsiau TGAU amrywiol sydd ar gael. Gall disgyblion cyfnod allweddol 4 ddewis o blith ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Mae'r ysgol yn gweithio'n briodol gydag ysgolion lleol a choleg addysg bellach i ehangu cyfleoedd y cwricwlwm sydd ar gael i fyfyrwyr yn y chweched dosbarth, a gydag ystod o bartneriaid, i ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer yr holl ddysgwyr.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i helpu disgyblion i drosglwyddo'n esmwyth i Flwyddyn 7. Mae disgyblion o ysgolion cynradd partner yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthfawr o Flwyddyn 4 ymlaen. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu amrywiaeth o fedrau sy'n cefnogi eu cyfnod trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn dda. Er enghraifft, mae trefniadau pontio llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion yn bwrpasol ac yn canolbwyntio ar gysondeb dulliau ac addysgu rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd defnyddiol i ymarfer a datblygu amrywiaeth o fedrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o feysydd pwnc yn cynllunio gweithgareddau gwerth chweil sy'n galluogi disgyblion i gymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus mewn cyd-destunau ystyrlon. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau i hwyluso dilyniant yn y medrau hyn wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae rhaglen o ymyrraeth effeithiol a thargedig ar waith i gynorthwyo disgyblion sydd â medrau darllen gwannach.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymgymryd â gweithgareddau addas i wella'r cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau addysgol lleol a rhyngwladol, gweithgareddau chwaraeon ac academaidd, ac ymweliadau â'r theatr.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd perthnasol a defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru, fel teithiau preswyl i Lan-llyn yn y

chweched dosbarth. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer cymhwyster Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, er bod cyfleoedd cyfyngedig iddynt ddatblygu eu medrau Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg, ar y cyfan.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath ethos gofalgar a chynhwysol ac mae'n darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr ar gyfer disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu lles, eu dysgu a'u datblygiad personol.

Mae'r ysgol yn hynod lwyddiannus yn datblygu gwerthoedd ysbrydol disgyblion, sy'n hanfodol i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae ymglymiad disgyblion yn y gymuned Gatholig yn yr ysgol ac mewn plwyfi lleol yn nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol. Mae gwasanaethau ysgol gyfan, Offeren wythnosol, encil i Kintbury a phererindod i Lourdes yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, yr ethos Catholig a'u synnwyr o gymuned.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb yn dda ac yn darparu rhaglen werth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth foesol, gymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu eu hymwybyddiaeth ohonyn nhw eu hunain fel unigolion a'u cyfraniadau yn y gymuned leol, yng Nghymru a'r byd.

Mae trefniadau pontio yn effeithiol iawn ac yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer y disgyblion sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r 'grŵp anogaeth' ar gyfer disgyblion newydd yn yr ysgol yn darparu amgylchedd diogel sydd hefyd yn heriol ac yn galluogi iddynt ymgynefino'n gyflym.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i nodi ac olrhain pob grŵp o ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni. O ganlyniad, caiff disgyblion gymorth priodol, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd addas. Er mai megis dechrau datblygu y mae'r arfer o olrhain lles, mae gan yr ysgol system bwyntiau werthfawr i gofnodi agweddau cadarnhaol at ddysgu a digwyddiadau ymddygiadol mewn gwersi. Mae hyn yn galluogi staff ar bob lefel i gynnig cymorth priodol i ddisgyblion, yn ôl yr angen.

Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn llwyddiannus, ac yn darparu ymyriadau addas pan fydd angen. Mae'r camau gweithredu hyn yn cyfrannu'n fuddiol at gyfraddau presenoldeb disgyblion. Mae gwersi technoleg gwybodaeth yn helpu disgyblion i ddeall sut i aros yn ddiogel ar-lein, ac mae gan yr ysgol systemau llwyddiannus ar waith i ddelio ag unrhyw achosion o fwlio.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, yn ogystal ag iechyd a lles emosiynol. Mae staff allweddol wedi cael hyfforddiant addas i'w helpu i gynorthwyo unrhyw ddisgyblion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o asiantaethau allanol i ddarparu arweiniad a chymorth ychwanegol ar gyfer y disgyblion sy'n fwy agored i niwed.

Mae adroddiadau interim yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd eu plentyn. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw adroddiadau blynyddol ysgrifenedig i rieni yn cynnwys targedau digon clir ar gyfer gwella.

Caiff disgyblion ag angen addysgol arbennig (AAA) eu nodi a'u cynorthwyo'n dda. Caiff proffiliau un dudalen buddiol a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eu rhannu'n dda â staff a rhieni. O ganlyniad, gosodir targedau clir ar gyfer disgyblion, a rhoddir cyngor defnyddiol i athrawon ar sut i helpu'r disgyblion i fodloni'r nodau hyn.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain, er enghraifft fel llysgenhadon lles a gwrthfwlio. Yn ychwanegol, caiff disgyblion ag anghenion addysgol arbennig eu hannog i gynnal clwb cyfeillgarwch llwyddiannus 'Help Llaw' ('Helping Hands') bob amser cinio ar gyfer yr holl ddisgyblion. Yn y gorffennol, cynhaliwyd bore coffi â gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth staff am agweddau ar anghenion addysgol arbennig. Mae'r cyfleoedd hyn yn eu helpu i ddatblygu i fod yn ddinasyddion gweithgar yng nghymuned yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi cyngor ac arweiniad priodol i ddisgyblion i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dewisiadau am ddysgu a gyrfa yn y dyfodol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 9 yn archwilio datblygu gyrfa mewn gwersi cyn dewis opsiynau. Fel rhan o bartneriaeth ysgol rhwng gwledydd, mae hefyd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl ennill medrau gwerthfawr, gan gynnwys y rhai i gynyddu gallu'r cof a magu hyder.

Mae gweithdrefnau diogelu yn bodloni'r gofynion ar y cyfan, ac nid oes unrhyw feysydd pryder arwyddocaol. Daethpwyd â mater diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad at sylw'r ysgol.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel i bawb ac sydd wedi'u hategu gan yr ethos Catholig yn cydnabod bod 'pob plentyn yn unigolyn unigryw, sy'n werthfawr i Dduw'. Caiff y weledigaeth hon ei chyfleu yn dda i ddisgyblion, staff a rhieni.

Mae gan uwch arweinwyr rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n briodol. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gynllunio blaenoriaethau allweddol yr ysgol a chefnogi'r ethos Catholig. Mae pedair blaenoriaeth gwelliant strategol yr ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar arweinyddiaeth, safonau, dileu rhwystrau rhag dysgu ac ansawdd yr addysgu. Mae gan uwch arweinydd gyfrifoldeb am oruchwylio cyflawni'r blaenoriaethau hyn. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder mewn ychydig o feysydd cyfrifoldeb, gan gynnwys asesu a datblygiad cynyddol medrau disgyblion.

Ers yr arolygiad diwethaf, bu arweinwyr yn llwyddiannus o ran cefnogi gwelliannau mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys deilliannau disgyblion, lles, ymddygiad a phresenoldeb.

Mae arweinwyr canol yn deall eu prif rolau a chyfrifoldebau adrannol a bugeiliol yn dda, yn enwedig o ran codi safonau disgyblion, a sicrhau eu lles a'u hymddygiad. Mae trefniadau rheolaeth llinell yn glir ac yn cael eu deall yn dda. Mae arweinwyr canol yn cyfarfod â'u rheolwyr llinell yn rheolaidd, ac er bod y cyfarfodydd hyn yn mynd i'r afael â materion gweithredol yn dda, nid ydynt yn canolbwyntio ddigon ar gynnydd tuag at gyflawni blaenoriaethau gwella allweddol yr ysgol, fel ansawdd yr addysgu. Nid oes gan arweinwyr canol ddealltwriaeth glir o'u rolau o ran gweithgareddau hunanwerthuso pwysig, neu pryd y disgwylir iddynt eu cwblhau. O ganlyniad, maent yn adweithiol ac yn ymateb i gyfarwyddiadau gan uwch arweinwyr.

Nid yw uwch arweinwyr wedi ymgynghori'n ddigon da â staff am newidiadau pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys y penderfyniadau i wasgaru amser cinio ac i newid nifer a hyd y gwersi, sydd wedi arwain at sawl fersiwn o amserlen yr ysgol. O ganlyniad, nid yw penaethiaid tai bob amser ar gael, ac felly'n gallu delio â materion ymddygiad mor effeithiol ag yn y gorffennol, a bu'n rhaid i athrawon wneud addasiadau mawr i'w cynlluniau gwaith ar fyr rybudd. Mae ychydig o bynciau wedi colli amser addysgu sylweddol, yn enwedig yn y chweched dosbarth. Mae'r ansicrwydd hwn a'r diffyg ymgynghori a chyfathrebu, a thryloywder annigonol o ran gwneud penderfyniadau, wedi cyfrannu at forâl isel ymhlith staff, gostyngiad mewn gweithgareddau amser cinio ac ni all staff gynllunio trefniadau priodol i gyflawni eu dyletswyddau mor drylwyr ag o'r blaen.

Nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gweithio gyda'i gilydd yn ddigon effeithiol i gyflawni blaenoriaethau strategol allweddol yr ysgol. Nid yw arweinwyr canol yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi'n broffesiynol neu y gwrandewir ar eu pryderon. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth a pharch rhwng staff ac uwch arweinwyr. Nid oes gan arweinwyr canol berchnogaeth dros feysydd allweddol eu cyfrifoldeb, er enghraifft hunanwerthuso ac olrhain cynnydd disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda, ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'i chryfderau a'i gwendidau. Maent yn gefnogol iawn, yn rhoi her ddigonol i uwch arweinwyr ac yn cymryd camau pendant i ddelio â thanberfformio.

Mae'r ysgol wedi datblygu ystod briodol o weithgareddau hunanwerthuso i fonitro effeithiolrwydd y rhan fwyaf o agweddau ar ei gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau o lyfrau, arsylwadau ystafell ddosbarth a chasglu safbwyntiau disgyblion. Fodd bynnag, mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio gormod ar faterion cydymffurfio, ac nid ar ansawdd nac effeithiolrwydd y gweithgaredd. Er enghraifft, mae arsylwadau gwersi yn canolbwyntio gormod ar berfformiad yr athro, a ph'un a gwblhawyd camau gweithredu ai peidio. Fel arfer, ychydig iawn o sylw y maent yn ei roi i effeithiolrwydd yr addysgu, yn enwedig i'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion neu i ddatblygiad eu medrau. O ganlyniad, nid oes gan yr ysgol farn ddigon manwl ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn meysydd allweddol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i werthuso perfformiad staff. Mae amcanion rheoli perfformiad yn perthnasu'n briodol â chodi safonau, ond mae amcanion personol yn rhy annelwig, ac yn aml dim ond yn datgan rôl a chyfrifoldeb unigolyn.

Mae llawer o athrawon a staff cymorth yn ymgymryd yn bwrpasol â chyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon wedi cymryd rhan mewn prosiectau buddiol yn yr ysgol i wella profiadau disgyblion, er enghraifft gwella deialog ystafell ddosbarth neu ystyried defnyddioldeb meini prawf llwyddiant. Mae staff yn dechrau archwilio dulliau addysgu newydd trwy brosiectau ymchwil, ac ar y cyd ag athrawon eraill yn fewnol. Mae gan yr ysgol ystod eang o gysylltiadau â darparwyr eraill, gan gynnwys ysgolion a sefydliadau addysg uwch lleol sy'n gwella dysgu proffesiynol y staff.

Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant yn effeithiol i ddarparu ystod o strategaethau sy'n helpu mynd i'r afael ag effaith tlodi. Mae'r ysgol yn monitro ac yn gwerthuso'r gwariant yn systematig i bennu effaith penderfyniadau am wariant a gwneud yn siŵr fod gwerth da am arian.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2020